Gwneud camgymeriad

Cysyniadau: **Maddau, ymddiried, dweud y gwir.**

Amcan: **Dangos pa mor bwysig ydi bod yn onest.**

Cyfarpar: **Gêm nadroedd ac ysgolion (snakes and ladders).**

Cyflwyniad:

● Faint ohonoch chi sydd wedi chwarae'r gêm, nadroedd ac ysgolion? Beth sy'n digwydd pan fo'r disg yn cyffwrdd pen y neidr? Beth sy'n digwydd pan fo'r disg yn cyrraedd gwaelod un o'r ysgolion?

● Bydd rhaid mynd i lawr y neidr i flaen ei chynffon a bydd cyfle i fynd i fyny'r ysgol i'r brig. Y gamp ydi cyrraedd y diwedd heb gyffwrdd â phennau'r nadroedd. Efallai y bydd cyfle i chi wneud neu chwarae gêm nadroedd ac ysgolion rywdro. Fe allech wneud faint fynnoch chi o nadroedd. Ond beth am yr ysgolion? Un neu ddwy? I wneud y gêm yn fwy diddorol.

● Yr hyn sy'n bwysig wrth chwarae'r gêm ydi peidio digalonni pan fyddwch wedi cyrraedd pen un o'r nadroedd. Byddwch yn gorfod mynd i lawr i flaen y gynffon ond mae'n rhaid dal ati ac ailgychwyn.

● Faint ohonoch chi sydd wedi gwneud camgymeriad? Beth ddigwyddodd? Fyddwch chi'n gwneud camgymeriadau yn eich gwaith yn y dosbarth? Symiau neu sillafu? Neu ar y maes chwarae?

● Beth ydi'r peth gorau i'w wneud pan fyddwch wedi gwneud camgymeriad? Rhannu efo rhywun. Bod yn onest. Dweud bod yn ddrwg gynnoch chi. Dal ati. Gwrando'n fwy astud. Gofyn am gymorth.

Stori:

Mae'r stori heddiw yn dod o'r Beibl. Un o ddisgyblion Iesu oedd Simon Pedr. Pedr oedd yr un oedd yn siarad ar ran y disgyblion eraill. Y fo oedd yn barod i ddweud ei ddweud.

Pan oedd Iesu'n wynebu amser anodd iawn, ychydig ddyddiau cyn iddo gael ei groeshoelio, roedd Pedr wedi gwadu ei fod yn ffrind i Iesu. Pan oedd Pedr yn cynhesu ei ddwylo dyma 'na eneth yn sylwi ar Pedr ac meddai, 'Mi wyt tithau yn ffrind i Iesu.'

'Am beth wyt ti'n siarad?' meddai Pedr. 'Dydw i ddim yn adnabod y dyn.'

Yn dilyn hyn, ar ôl i Iesu farw ar y groes a chodi o'r bedd, roedd y disgyblion wedi mynd yn ôl i Galilea. Ac un bore pan oedd Pedr a chriw o'r disgyblion yn pysgota ar lyn Galilea, dyma rywun yn galw. Roedd y dyn yn sefyll ar y lan.

Meddai'r dyn, 'Ffrindiau, ydych chi wedi dal rhywbeth?'

'Na' meddai'r disgyblion efo'i gilydd.

'Wel,' meddai'r dyn, 'beth am i chi fwrw'r rhwyd i ran arall o'r llyn?'

A dyma'r disgyblion yn mynd ati i fwrw'r rhwyd. Ac yn wir i chi dyma nhw'n dal llond y rhwyd o bysgod mawr. Cant pum deg a thri ohonyn nhw. A'r munud hwnnw dyma Pedr yn adnabod y dyn oedd yn sefyll ar y lan. Iesu oedd o.

Ar ôl iddyn nhw gael brecwast, pysgod a bara, dyma Iesu'n mynd â Pedr o'r neilltu. Gofynnodd iddo, 'Pedr, wyt ti'n fy ngharu?'

'Wrth gwrs,' meddai Pedr, 'rwyt ti'n gwybod fy mod i'n dy garu di.'

Roedd Pedr a Iesu yn ffrindiau unwaith eto.

Emyn: Cariad Crist sydd yn llifo atom: Canu Clod 66

Dyfyniad o'r Beibl:

Pan oedden nhw wedi gorffen bwyta, dyma Iesu'n troi at Simon Pedr a dweud, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i fwy na'r rhain?"

Ioan 21:15 beibl.net

Munud i feddwl:
Pan fo rhywun wedi gwneud camgymeriad cofiwch am y troeon maen nhw wedi gwneud pethau da.

Myfyrdod/Gweddi:
Rydyn ni i gyd yn gwneud camgymeriadau. Pob un ohonom. Rhai camgymeriadau mawr a rhai camgymeriadau bach. Pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, boed fawr neu fach, cofiwn bob amser ddweud sori.